South East Wales Shared Lives Scheme

Roles and responsibilities of the Shared Lives carer(s)
The Shared Lives carer(s) agree(s):

1. To work in accordance with the aims and objectives of the Shared Lives scheme as set out in the statement of purpose.

2. To work in accordance with the Shared Lives scheme's responsibilities in the Adult Placement Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019.

3. To work in accordance with the standards set out in the Code of Professional Practice for Social Care.

4. To adhere to the Shared Lives scheme's written policies, procedures and guidelines, including:
    - Suitability of the Service Policy and Procedure
    - Recruitment and Training of Shared Lives Carers Policy and Procedure
    - Safeguarding Policy and Procedure
    - Safe Management of People's Money, Valuables and Financial Affairs – Carer Guidelines
    - Medication Management Policy and Good Practice Guidelines

5. To provide care and support to each individual in accordance with the actions set out in their personal plan.

6. To support individuals to achieve their chosen personal outcomes.

7. To treat individuals with respect and dignity and support individuals to express their views and make choices and decisions.

8. To support individuals to pursue their wishes and aspirations, and follow their religious beliefs and cultural customs.

9. To promote and protect the health, safety and welfare of individuals and others in the household.

10. To support individuals to access treatment, advice and other services from relevant health care professionals as necessary. This could include access to hospital, a GP, practice nurse, pharmacist, dentist, optician, chiropodist or podiatrist.

11. To work positively and co-operatively with individuals' family members and representatives.

12. To work positively and co-operatively with professionals and other people involved in the life of the individual.

13. To work in line with any written risk assessment or risk management plan, and inform the Shared Lives worker of any additional / newly identified risks for the individual, and work with the individual, the Shared Lives worker, and others to agree ways to manage those risks.

14. To inform the Shared lives worker if any significant changes in the care and support needs of the individual are identified.

15. To adhere to the Shared Lives scheme's Medication Management Policy and Good Practice Guidelines, which provide guidance on the safe storage and administration of medication.

16. To only administer medication if this is a documented care and support need in the individual's personal plan, and the Shared lives carer has received training in safe administration of medication.

17. To adhere to the Shared Lives scheme's Safe Management of People's Money, Valuables and Financial Affairs – Carer Guidelines, which provide guidance on arrangements to support individuals to manage their money.

18. To support the individual to manage their money, as required in the individual's personal plan and financial plan.

19. When instructed by a member of staff from the Shared Lives scheme, keep and maintain records about the individual. Records could include recordings about the individual's care and support, medication, and finances (including the safekeeping of money or valuables).

20. To keep all records in a secure place and to return all records to the Shared Lives scheme when the arrangement comes to an end.

21. To cooperate with the Shared Lives scheme in completing a fire safety checklist and fire plan in the home. The fire safety checklist and fire plan must be reviewed annually.

22. Not to disclose any personal information about the person without his/her agreement, and in line with the Shared Lives scheme's policy on confidentiality. This applies regardless of whether the individual is in a Shared Lives arrangement, away from the arrangement, or after the arrangement has ended.

23. To inform the Shared Lives worker or Shared Lives manager straight away about any allegations, concerns or suspicions about the possibility of abuse or neglect of an individual, and to follow the scheme's safeguarding procedure.

24. To inform the individual(s) living with the Shared Lives carer or receiving support from the carer about planned visits by Shared Lives scheme staff, so that they can be present during the visit if they wish.

25. To positively engage in the regular support and monitoring visits by staff from the Shared Lives scheme, allowing access to the home at all reasonable times.

26. To positively engage in carer reviews, completed by a Shared Lives worker. The review will include a review of the obligations, roles and responsibilities set out in this carer agreement and also in any individual arrangement agreements that have been entered into.

27. To attend all core training courses: Principles and Values, Safeguarding, Mental Capacity Act, Infection Control, Basic First Aid, Food Hygiene Awareness, Administration of Medication, and Health and Safety & Risk Assessment training.

28. To participate in training on an ongoing basis, attending a minimum of two training courses per year, and attending all courses identified as necessary by the Shared Lives worker.

29. To attend a minimum of two carer meetings per year.

30. To positively engage in any meetings with the Shared Lives scheme's responsible individual.

31. To positively engage in any meetings with inspectors from Care Inspectorate Wales.

32. To inform the Shared Lives scheme (or out-of-hours emergency service) within 24 hours of any accident or incident involving the individual, including:
    - any serious infectious disease in the Shared Lives carer's home;
    - any serious accident or injury or illness of the individual;
    - any event that may have an adverse effect on the individual;
    - any theft or burglary in the Shared Lives carer's home;
    - any incident concerning the individual which is reported to or investigated by the police;
    - any complaint or allegation made by the individual against the Shared Lives carer or any other person, or against the Shared Lives scheme;
    - any unexplained absence of the individual from the Shared Lives carer's home;
    - any formal restraint which may restrict or deprive the person of their liberty
    - the death of the person.

    All verbal notifications must be confirmed in writing.

33. To inform the Shared Lives scheme as soon as possible, even if the carer does not have anyone in a Shared Lives arrangement at the time, of:

- any criminal or civil conviction;
- any proposed change of address;
- any proposed change of accommodation;
- any change in the composition of the household;
- any change in personal circumstances that may affect their ability to support the person;
- any proposal to have time away from their caring role.

All verbal notifications must be confirmed in writing.

34. To follow the scheme's whistleblowing procedure if there is cause for concern about the conduct or practice of other Shared Lives carers, Shared Lives workers, volunteers, or the Shared Lives scheme manager, or about the way the Shared Lives scheme operates.

35. To follow the Shared Lives scheme's complaints procedure if there is a concern that the Shared Lives scheme has breached any of its responsibilities or if the Shared Lives carer is dissatisfied with any aspect of the scheme.

36. To consider becoming a member of Shared Lives Plus. Shared Lives Plus provides the following for its members: an independent, and confidential helpline for information and advice, legal expenses cover if the Shared Lives carer has an allegation made against them resulting in being taken to court and/or the scheme is seeking to de-approve them, access to a legal helpline which the Shared lives carer can use for advice on any relevant legal issue, and the opportunity to meet or get in touch with other carers.

Cynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru

Rolau a chyfrifoldebau gofalydd/gofalyddion Cysylltu Bywydau
Mae gofalydd/gofalyddion Cysylltu Bywydau'n cytuno i:

1. Gweithio yn unol â nodau ac amcanion y cynllun Cysylltu Bywydau fel y nodir yn y datganiad o ddiben.

2. Gweithio yn unol â chyfrifoldebau cynllun Cysylltu Bywydau yn Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

3. Gweithio yn unol â'r safonau a nodir yn y Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

4. Cadw at bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau Cynllun Cysylltu Bywydau, gan gynnwys:
    - Addasrwydd y Polisi a'r Weithdrefn Gwasanaethau
    - Polisi a Gweithdrefn Recriwtio a Hyfforddi Gofalyddion Cysylltu Bywydau
    - Polisi a Gweithdrefn Diogelu
    - Canllawiau Gofalyddion - Rheoli Diogel o Arian, Pethau Gwerthfawr a Materion Ariannol Pobl
    - Polisi Rheoli Meddyginiaeth a Chanllawiau Arfer Da

5. Darparu gofal a chymorth i bob unigolyn yn unol â'r camau a nodir yn eu cynllun personol.

6. Cefnogi unigolion i gyflawni eu hamcanion personol dewisol.

7. Trin unigolion â pharch ac urddas a chefnogi unigolion i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau a phenderfyniadau.

8. Cefnogi unigolion i ddilyn eu dymuniadau a'u dyheadau, a dilyn eu credoau crefyddol a'u harferion diwylliannol.

9. Hyrwyddo a diogelu iechyd, diogelwch a lles unigolion ac eraill yn y cartref.

10. Cefnogi unigolion i gael mynediad at driniaeth, cyngor a gwasanaethau eraill gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd perthnasol fel bo'r angen. Gallai hyn

gynnwys mynediad i'r ysbyty, meddyg teulu, nyrs practis, fferyllydd, deintydd, optegydd, ceiropodydd neu bodiatrydd.

11. Gweithio'n gadarnhaol a chydweithredol gydag aelodau teuluol a chynrychiolwyr unigolion.

12. Gweithio'n gadarnhaol a chydweithredol â gweithwyr proffesiynol a phobl eraill sy'n ymwneud â bywyd yr unigolyn.

13. Gweithio yn unol ag unrhyw asesiad risg neu gynllun rheoli risg ysgrifenedig, a hysbysu'r gweithiwr Cysylltu Bywydau o unrhyw risgiau ychwanegol neu sydd newydd gael eu nodi ar gyfer yr unigolyn, a gweithio gyda'r unigolyn, y gweithiwr Cysylltu Bywydau, ac eraill i gytuno ar ffyrdd o reoli'r risgiau hynny.

14. Hysbysu'r gweithiwr Cysylltu Bywydau os mae unrhyw newidiadau sylweddol yn anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu nodi.

15. Cydymffurfio â Pholisi Rheoli Meddyginiaeth a Chanllawiau Arfer Da'r cynllun Cysylltu Bywydau, sy'n darparu arweiniad ar storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.

16. Rhoi meddyginiaeth dim ond os mae'n angen gofal a chymorth sydd wedi'i ddogfennu yng nghynllun personol yr unigolyn, ac mae'r gofalydd Cysylltu Bywydau wedi cael hyfforddiant i roi meddyginiaeth yn ddiogel.

17. Cadw at Ganllawiau Gofalyddion - Rheoli Diogel o Arian, Pethau Gwerthfawr a Materion Ariannol Pobl cynllun Cysylltu Bywydau, sy'n rhoi cyfarwyddyd ar drefniadau i gynorthwyo unigolion i reoli eu harian.

18. Cefnogi'r unigolyn i reoli ei arian, fel sy'n ofynnol yng nghynllun personol a chynllun ariannol yr unigolyn.

19. Cadw a chynnal cofnodion am yr unigolyn yn ôl cyfarwyddyd aelod o staff y cynllun Cysylltu Bywydau. Gallai cofnodion gynnwys gwybodaeth am ofal a chefnogaeth, meddyginiaeth a chyllid yr unigolyn (gan gynnwys cadw arian neu bethau gwerthfawr yn ddiogel).

20. Cadw'r holl gofnodion mewn man diogel a dychwelyd yr holl gofnodion i'r cynllun Cysylltu Bywydau pan ddaw'r trefniant i ben.

21. Cydweithio gyda'r cynllun Cysylltu Bywydau wrth gwblhau rhestr wirio diogelwch tân a chynllun tân yn y cartref. Rhaid adolygu'r rhestr wirio diogelwch tân a'r cynllun tân yn flynyddol.

22. Peidio â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol am y person heb ganiatâd, ac yn unol â pholisi'r cynllun Cysylltu Bywyd ar gyfrinachedd. Mae hyn yn berthnasol waeth a yw'r unigolyn mewn trefniant Cysylltu Bywyd, i ffwrdd o'r trefniant, neu ar ôl i'r trefniant ddod i ben.

23. Rhoi gwybod i'r gweithiwr Cysylltu Bywydau neu Reolwr Cysylltu Bywydau'n

syth am unrhyw honiadau, pryderon neu amheuon ynghylch y posibilrwydd o gam-drin neu esgeulustod unigolyn, ac i ddilyn gweithdrefn diogelu'r cynllun.

24. Hysbysu'r unigolyn/unigolion sy'n byw gyda'r gofalydd Cysylltu Bywydau neu sy'n derbyn cefnogaeth gan y gofalydd ynghylch ymweliadau a gynlluniwyd gan staff y cynllun Cysylltu Bywydau, fel y gallant fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad os dymunant.

25. Ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ymweliadau monitro a chefnogi rheolaidd gan staff o'r cynllun Cysylltu Bywydau, gan ganiatáu mynediad i'r cartref ar bob adeg resymol.

26. Ymgysylltu'n gadarnhaol ag adolygiadau gofalyddion a gwblhawyd gan weithiwr Cysylltu Bywydau. Bydd yr adolygiad yn cynnwys adolygu'r rhwymedigaethau, rolau a chyfrifoldebau a nodir yn y cytundeb gofalyddion hwn a hefyd mewn unrhyw gytundebau trefniant unigol a wnaed.

27. Mynychu pob cwrs hyfforddi craidd: Hyfforddiant Egwyddorion a Gwerthoedd, Diogelu, Deddf Galluedd Meddyliol, Rheoli Heintiau, Cymorth Cyntaf Sylfaenol, Ymwybyddiaeth Hylendid Bwyd, Rhoi Meddyginiaeth, Iechyd a Diogelwch ac Asesu Risg.

28. Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn barhaus, mynychu o leiaf dau gwrs hyfforddi'r flwyddyn, a mynychu pob cwrs a nodwyd gan y gweithiwr Cysylltu Bywydau.

29. Mynychu o leiaf dau gyfarfod gofalyddion y flwyddyn.

30. Ymgysylltu'n bositif mewn unrhyw gyfarfodydd â pherson cyfrifol y cynllun Cysylltu Bywydau.

31. Ymgysylltu'n bositif mewn unrhyw gyfarfodydd ag arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru.

32. Hysbysu'r cynllun Cysylltu Bywydau (neu wasanaeth brys y tu allan i oriau) o fewn 24 awr o unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r unigolyn, gan gynnwys:
    - unrhyw glefyd heintus difrifol yng nghartref y gofalydd Cysylltu Bywydau;
    - unrhyw ddamwain, anaf neu salwch difrifol yr unigolyn;
    - unrhyw ddigwyddiad a allai gael effaith andwyol ar yr unigolyn;
    - unrhyw ladrad neu fyrgleriaeth yng nghartref y gofalydd Cysylltu Bywydau;
    - unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â'r unigolyn sy'n cael ei adrodd i'r heddlu neu y mae'r heddlu'n ymchwilio iddo;
    - unrhyw gŵyn neu honiad a wneir gan yr unigolyn yn erbyn y gofalydd Cysylltu Bywydau neu unrhyw berson arall, neu yn erbyn y cynllun Cysylltu Bywydau;
    - unrhyw absenoldeb anhysbys o'r unigolyn o gartref y gofalydd Cysylltu Bywydau;

- unrhyw ataliad ffurfiol a all gyfyngu neu amddifadu'r person o'u rhyddid;
- marwolaeth y person.

Rhaid cadarnhau pob hysbysiad llafar yn ysgrifenedig.

33. Hysbysu'r cynllun Cysylltu Bywydau cyn gynted â phosib, hyd yn oed os nad oes gan y gofalydd unrhyw un yn y cynllun Cysylltu Bywydau ar y pryd, o'r ganlynol:
    - unrhyw euogfarn droseddol neu sifil;
    - unrhyw newid cyfeiriad arfaethedig;
    - unrhyw newid arfaethedig mewn llety;
    - unrhyw newid yng nghyfansoddiad y cartref;
    - unrhyw newid mewn amgylchiadau personol a allai effeithio ar eu gallu i gefnogi'r person;
    - unrhyw gynlluniau i gael amser i ffwrdd oddi wrth y rôl ofalu.

    Rhaid cadarnhau pob hysbysiad llafar yn ysgrifenedig.

34. Dilyn gweithdrefn chwythu'r chwiban y cynllun os oes pryder ynghylch ymddygiad neu ymarfer unrhyw ofalydd, gweithiwr Cysylltu Bywydau, gwirfoddolwr, neu reolwr y cynllun Cysylltu Bywydau, neu am y ffordd y mae'r cynllun Cysylltu Bywydau yn gweithredu.

35. Dilyn gweithdrefn gwyno'r cynllun Cysylltu Bywydau os oes pryder bod y cynllun Cysylltu Bywydau wedi torri unrhyw un o'i gyfrifoldebau neu os yw'r gofalydd Cysylltu Bywydau yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r cynllun.

36. Ystyried dod yn aelod o Gysylltu Bywydau Plws. Mae Cysylltu Bywydau Plws yn darparu'r canlynol ar gyfer ei aelodau: llinell gymorth annibynnol a chyfrinachol ar gyfer gwybodaeth a chyngor, costau cyfreithiol yn cael eu talu os mae honiad yn cael ei wneud yn erbyn y gofalydd Cysylltu Bywydau sy'n arwain at gael ei gymryd i'r llys a/neu at y cynllun yn ceisio ei ddad-gymeradwyo, mynediad i linell gymorth gyfreithiol y gall y gofalydd Cysylltu Bywydau ei defnyddio i gael cyngor ar unrhyw fater cyfreithiol perthnasol, a'r cyfle i gyfarfod â gofalyddion eraill neu i gysylltu â nhw.